ABC Adfer Ban a Chwm
revitalise hill and valley

# Prosiect Treftadaeth Llawr Gwlad

## *Y Flwyddyn Cyntaf – Adroddiad Cryno*



LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI
heritage treftadaeth
Brecon Beacons Trust
Community Foundation in Wales
Sefydliad Cymunedol yng Nghymru
Quaker Housing Trust

Adfer Ban a Chwm, cwmni elusennol cyfyngedig trwy warant. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr: rhif y cwmni: 6591116; rhif yr elusen: 1124385 www.abcwales.org.uk

Ariannwyd y Prosiect Treftadaeth Llawr Gwlad ehangach ABC gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog, y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, y Quaker Housing Trust a'r Pilgrim Trust.

*Ymddiriedolaeth diogelu adeiladau yw Adfer Ban a Chwm (ABC) a'i nod yw adfer adeiladau gwerinol segur cyn 1919 yn Ne Cymru i safonau cadwraeth ac amgylcheddol uchel, gan ddod o hyd i ddefnyddiau cynaliadwy priodol i bob adeilad unigol, a chefnogi cymunedau lleol i werthfawrogi a sylweddoli ar eu gwerth cynhenid.*

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Digwyddiad 1** | Dathlu Myddfai Hanesyddol | 1 |
| **Digwyddiad 2** | Gweithdai Ysgol | 3 |
| **Digwyddiad 3** | Diwrnod Cofnodi Adeiladau Cymunedol | 4 |
| **Digwyddiad 4** | Clinig Hen Dai | 7 |
| **Digwyddiad 5** | Arddangosfa Ffotograffiaeth | 8 |
| Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol ABC – crynodeb byr | | 11 |

ABC

ABC Adfer Ban a Chwm revitalise hill and valley

# Prosiect Treftadaeth Llawr Gwlad – Y Flwyddyn Gyntaf – adroddiad cryno

Yn y crynodeb hwn, rhoir gwybod am flwyddyn gyntaf *Prosiect Treftadaeth Llawr Gwlad* ABC, gan gynnwys y gweithdai a'r digwyddiadau cymunedol, a chrynhoir canlyniadau *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* ABC. Mae manylion pellach ar gael yn y adroddiadau llawn. Mae ABC yn ddiolchgar am gefnogaeth ein harianwyr. Ariannwyd digwyddiadau cymunedol *Treftadaeth Llawr Gwlad* gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog a'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru. Cafwyd cyllid hefyd gan Quaker Housing Trust ac Ymddiriedolaeth y Pererin a gefnogodd y *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* a swydd y cyfarwyddwr gweithredol, yn y drefn honno.

### Y Digwyddiadau Cymunedol

Erbyn hyn mae ABC wedi cwblhau'r pum digwyddiad cymunedol i gyd a drefnwyd yn rhan o flwyddyn gyntaf y *Prosiect Treftadaeth Llawr Gwlad.* Cafodd y digwyddiadau a'r gweithdai hyn eu cynllunio a'u trefnu gan swyddogion prosiect ABC, Nell Hellier a Helena Burke. Archaeolegydd tirwedd ABC, Helen Whitear, (a luniodd ac a weithredodd *Raglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* ABC) a drefnodd ac a weithredodd y digwyddiad cofnodi adeiladau cymunedol. Tynnwyd staff ychwanegol o Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (YAD) a fu hefyd yn rhoi cymorth mewn ffyrdd eraill, ac a oedd yn bartneriaid prosiect ar gyfer yr elfen gyntaf o *Raglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* ABC.

## Digwyddiad 1 – Dathlu Myddfai Hanesyddol. 18 Mawrth 2017

Cafwyd digwyddiad 'galw heibio' drwy'r dydd yn Neuadd Gymunedol Myddfai i lansio *Prosiect Treftadaeth Llawr Gwlad* ABC yn swyddogol. Cynhaliwyd y diwrnod i annog pobl leol ac eraill o bellach i ffwrdd i gymryd rhan ym mhrosiect ABC, ac i hyrwyddo gweithgareddau eraill ABC a digwyddiadau ar ddod y gallai pobl gymryd rhan ynddynt yn rhan o'r *Prosiect Treftadaeth Llawr Gwlad* ehangach. Nod y digwyddiad oedd cynnwys y gymuned leol wrth gasglu gwybodaeth mewn perthynas â hanes ardal Myddfai, yn enwedig yr adeiladau lleol a'u hanes cysylltiedig. Ei nod hefyd oedd helpu pobl i ddeall a gwerthfawrogi eu hen adeiladau: sut mae gofalu amdanynt, a phwysigrwydd cofnodi gwybodaeth yn gysylltiedig â'r rheini sydd bellach yn anghyfannedd cyn ei cholli'n llwyr.

Yn y cyhoeddusrwydd am y digwyddiad, gwahoddwyd pobl i ddod â ffotograffau a storïau i'w rhannu, i helpu eraill i ddysgu am y ffordd y mae bywyd wedi newid yn yr ardal. Ymhlith y deunydd a gyfrannwyd gan y bobl leol, roedd cerddi a ysgrifennwyd gan y prifathro lleol, pregeth Gymraeg

mewn llawysgrifen o fis Hydref 1929 ac adroddiadau Cyfrifiad a gasglwyd o ymchwil llinach yn ardal Myddfai.

Roedd staff o Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (YAD) wrth law gyda mapiau hanesyddol papur a digidol i ddarparu arddangosiadau ymarferol, ac i roi'r cyfle i ymwelwyr ddod o hyd i'w cartref ar fapiau hanesyddol a sylwi ar y gwahaniaethau yn y dirwedd, yr adeiladau a'r enwau lleoedd. Rhoddwyd sgyrsiau byrion am y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol lleol (mae'r CAH yn cael ei gadw a'i gynnal gan YAD), gan egluro sut gall pobl gael at yr adnodd hwn a chyfrannu ato. Daeth YAD â gwybodaeth hefyd am waith archaeolegol arall yn yr ardal leol sy'n berthnasol i *Brosiect Treftadaeth Llawr Gwlad* ABC, gan gynnwys deunydd am brosiect diwydiant calch y Mynydd Du.

Ymunodd yr ymwelwyr ag archaeolegydd tirwedd ABC (yng nghwmni Rheolwr CAH YAD) ar daith gerdded dywysedig drwy bentref Myddfai a'r cylch. Cafodd y daith gerdded ei chysylltu â *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* ABC a gofnododd adeiladau anghyfannedd a segur yng Nghymuned Myddfai ac ardal orllewinol (Sir Gaerfyrddin) ehangach Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Dechreuodd y daith gerdded o Neuadd Gymunedol Myddfai, gan ymweld ag Eglwys Myddfai a Chapel Bethania, a safle adeiladau anghyfannedd a arferai fod yn gartrefi. Rhoddwyd i'r grŵp hanes tirwedd yr ardal gan gyfeirio at nodweddion hanesyddol gweladwy ar y dirwedd. Aeth y daith gerdded hefyd heibio llawer o adeiladau hanesyddol sy'n gartrefi o hyd i bobl leol.





**Yr ymwelwyr gyda archaeolegydd tirwedd ABC a Rheolwr CAH ar y daith gerdded dywysedig drwy bentref Myddfai a'r cylch.**

Rhoddwyd dwy sgwrs am hen adeiladau a'r ffordd orau o ofalu amdanynt gan swyddog prosiect ABC a rheolwr Canolfan Tywi. Yn y sgyrsiau, rhoddwyd gwybod sut mae ymdrin â lleithder a drafftiau mewn hen adeiladau, rhannwyd syniadau arfer gorau am wneud hen gartrefi'n fwy clyd, a soniwyd am atgyweirio a chynnal a chadw hen adeiladau, gan ddarparu rhestr wirio ddefnyddiol ar gyfer cynnal a chadw.

Drwy gydol y dydd darparwyd adloniant anffurfiol gan 'The Storyteller Tree', sef criw sy'n dod â storïau sy'n seiliedig ar leoedd a chymeriadau lleol yn fyw i bobl o bob oedran.

Cynlluniwyd y diwrnod fel y gallai pobl alw heibio am awr pan oedd yn gyfleus iddynt. Ni ddenodd y diwrnod gynifer o bobl ag a ragwelwyd, a hynny efallai am ei fod yn cyd-daro â'r tymor wyna a hefyd, yn anffodus, â gemau rygbi rhyngwladol y 'Sadwrn Mawr'. Fodd bynnag, gwnaeth llawer o'r

rheini a ddaeth gyfraniadau gwerthfawr at y prosiect, a mwynhaodd pawb ddiwrnod difyr, gan adael wedi cael gwir flas ar dreftadaeth fywiog Myddfai, ei hen adeiladau a'r cylch. Arhosodd y rhan fwyaf am y diwrnod cyfan, a chofrestru am ddigwyddiadau yn y dyfodol.

## Digwyddiad 2 – Gweithdai Ysgol 26 Ebrill a 24 Mai 2017

Ym mis Ebrill a mis Mai 2017 cynhaliodd ABC ddau Weithdy Ysgol. Ar ddydd Mercher 26 Ebrill, ymwelodd ABC ag Ysgol Gynradd Llangadog i gyflwyno sesiwn i 38 o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2. Ailadroddwyd y gweithdy ar 24 Mai 2017 ar gyfer 22 o blant o Ysgol Baratoi Coleg Llanymddyfri.

Cafodd y fformat i'r gweithdai hyn ei gynllunio, ei drefnu a'i gyflwyno mewn cydweithrediad ag Archaeolegydd Cymunedol YAD, sy'n athrawes gymwysedig â phrofiad maith o gyflwyno addysg dreftadaeth i blant ysgol gynradd. Nod y gweithdai oedd cyflwyno sesiynau diddorol, rhyngweithiol ac addysgiadol a fyddai'n annog y plant i feddwl am adeiladau: sut y cawsant eu hadeiladu, pam y cawsant eu hadeiladu, deunyddiau a ddefnyddiwyd yn yr adeilad a phwysigrwydd adeiladau i hanes a threftadaeth ardal.

Un nodwedd allweddol ar y rhan hon o'r prosiect oedd rhoi cyfle i'r plant adeiladu eu tŷ eu hunain. Comisiynodd ABC ddyluniad tai 'pacio gwastad', cardbord, y gallai'r plant eu torri allan a'u hadeiladu'n dai 3D. Argraffwyd amrywiaeth o ddeunyddiau adeiladu (gan gynnwys brics, haprwbel, carreg nadd, maen nadd, gwyngalch, toi gwellt, llechi, a charreg) mewn lliw i'r plant eu defnyddio i addurno'r tu allan i'w tai, ynghyd ag amrywiaeth o wahanol fathau o ffenestri a drysau traddodiadol.





**Cafodd y plant cyfle i adeiladu eu tŷ eu hunain!**

Bu'r ymarfer 'adeiladu tŷ' yn werthfawr iawn o ran ennyn diddordeb y plant – wrth siarad â'r plant wrth iddynt ddewis pa ddeunyddiau i'w defnyddio a pha ffenestri a fyddai'n gweddu i'w tai, roedd yn amlwg eu bod yn datblygu storïau ynghylch eu hadeiladau. Gallai'r plant hefyd fynd â'u tai adref i'w trafod gyda'u teuluoedd. Yn ogystal ag ennyn diddordeb y plant mewn dysgu am hen adeiladau, arweiniodd Gweithdai Ysgol ABC at gynhyrchu adnoddau addysgu graenus y gellir eu dyblygu, gan gynnwys deunyddiau ymarferol a chynllun gwers cynhwysfawr sydd ar gael i ABC ac eraill i wneud gwaith yn y dyfodol gyda phlant am hen adeiladau a'u pwysigrwydd hanesyddol. Soniodd yr

athrawon fod y gweithdy'n gweddu'n dda i themâu'r cwricwlwm ac awgrymwyd y gellid ei ddatblygu ymhellach i gysylltu llinellau amser mewn hanes ag adeiladau.

## Digwyddiad 3 – Diwrnod Cofnodi Adeiladau Cymunedol 29 Ebrill 2017

Ar ddydd Sadwrn 29 Ebrill 2017, cynhaliwyd diwrnod cofnodi adeiladau gan archaeolegydd tirwedd ABC, gyda chymorth dau archaeolegydd staff o Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (YAD). Rhoddwyd cyfarpar diogelwch, arolwg safle a chofnodi ar fenthyg yn garedig i'r digwyddiad gan bartneriaid a chefnogwyr y prosiect, YAD.

Nod y diwrnod cofnodi adeiladau oedd rhoi cyfle i wirfoddolwyr cymunedol ddysgu sut mae gwneud arolwg o hen adeiladau, eu cofnodi a'u deall yn archaeolegol, a hynny gan hyrwyddo arfer gorau iechyd a diogelwch wrth weithio mewn adeiladau anghyfannedd a segur ac o'u cwmpas. Ei nod oedd hybu ymwybyddiaeth am arwyddocâd hanesyddol a phwysigrwydd diwylliannol adeiladau gwerinol anghyfannedd a segur a'u gwerth yn ystorfeydd gwybodaeth gymdeithasol am y gymuned leol.

Cafodd nifer o adeiladau a nodwyd yn ystod *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* ABC eu rhoi ar restr fer am eu bod yn addas ar gyfer mynediad a hyfforddiant i grŵp o 10 o wirfoddolwyr. Roedd y gymuned leol yn Llanddeusant yn ddefnyddiol dros ben i ABC a, gyda'u cymorth hwy, trefnwyd mynd i mewn i'r adeiladau er mwyn eu cofnodi, gyda pherchennog Llanerch-goch a pherchennog Tyle Bach (y ddau'n adeiladau gwerinol segur yng Nghymuned Llanddeusant). Roedd y perchenogion yn ddigon caredig i roi caniatâd i ABC gynnal hyfforddiant cofnodi adeiladau gyda gwirfoddolwyr cymunedol.

Dechreuodd y diwrnod am 9.30am yng Nghanolfan Tywi yn Llandeilo, gyda chyflwyniad dan do i adeiladau gwerinol a thechnegau cofnodi, ac iechyd a diogelwch safle a gyflwynwyd gan archaeolegwyr YAD ac ABC. Daeth naw gwirfoddolwr cymunedol, a chafodd pawb becyn gwybodaeth am y dydd yn cynnwys manylion safle, copïau o fapiau hanesyddol o'r safleoedd i ymweld â hwy, gwybodaeth gyffredinol am adeiladau traddodiadol a gwerinol a ffurflenni cofnodi adeiladau ABC.



**Gwirfoddolwyr ABC yn gwneud braslun cynllunio o'r safle ac yn llenwi taflenni cofnodi adeilad (grŵp pellach) yn fferm Tyle-bach**

Aeth y grŵp yn ei flaen i Landdeusant, lle bu'r Hostel Ieuenctid lleol yn cynnig lle a chyfleusterau am y dydd. Yn ystod sesiwn bore a phrynhawn a rannwyd rhwng y ddau safle, rhoddwyd sgyrsiau cyflwyniadol i'r gwirfoddolwyr am y safle penodol, ac yna fe'u rhannwyd yn grwpiau o dri, a phob un yn cael ei arwain gan archaeolegydd proffesiynol. Cafodd y grwpiau eu cylchdroi i sicrhau bod pob un grŵp yn cael profiad o ddwy wahanol agwedd ar gofnodi adeiladau, gan gynnwys llunio brasluniau cynllunio wedi'u mesur, edrych ar ddatblygiad strwythurol adeilad yn ei gyd-destun tirwedd a llunio disgrifiadau safle, a dysgu sut mae creu cofnodion ffotograffig cynhwysfawr o safle. Drwy gydol y dydd, pwysleisiwyd pwysigrwydd cyd-destun tirwedd yr adeilad, a'r agweddau llai cyffyrddadwy ar hanes adeilad (fel traddodiadau llafar). Roedd hefyd digonedd o drafod am nodweddion amgylcheddol cynhenid adeiladau traddodiadol, am bwysigrwydd deall eu ffabrig a'u datblygiad, ac am berthnasedd y dull hwn i'r rheini sy'n cael eu defnyddio o hyd yn ogystal â'r rheini sydd wedi'u gadael.

Dychwelodd y grŵp i Hostel Ieuenctid Llanddeusant am ginio a diodydd poeth, ac ar ddiwedd y dydd mwynhawyd bwyd blasus yr oedd mawr ei angen yng Nghaffi Cymunedol Myddfai wrth adolygu'r diwrnod, a'r hyn a ddysgwyd. Diolchodd ABC i'r gwirfoddolwyr, a'u brwdfrydedd a'u diddordeb amlwg yn y pwnc wedi gwneud y diwrnod cofnodi adeiladau yn bleser pur, ac i aelodau staff YAD yr oedd eu dealltwriaeth a'u hymroddiad wedi gwneud y diwrnod mor llwyddiannus. Roedd yr adborth dilynol gan y gwirfoddolwyr yn gadarnhaol dros ben, a dangoswyd diddordeb diffuant mewn rhagor o'r mathau hwn o ddigwyddiad.





**Gwirfoddolwyr ABC yn dysgu am ddatblygiad safle yn fferm Llanerch-goch**

## Digwyddiad Cymunedol 4 – Clinig Hen Dai 20 Mai 2017

Ar ddydd Sadwrn 20 Mai, cyflwynodd ABC Glinig Hen Dai i berchenogion lleol hen adeiladau yn Ardal Myddfai. Nod y clinig oedd ysbrydoli ac addysgu pobl am ofalu am eu hen adeiladau.

Fformat y dydd oedd rhoi cyflwyniad yn Neuadd Gymunedol Myddfai gan The Lime Company of West Wales (TLC), ac yna ymweld â phedwar eiddo yr oedd y cyfranogwyr yn berchen arnynt, ac adolygu ffotograffau o bumed eiddo. Bu Cliff Blundell o TLC yn adolygu'r problemau yr oedd pob un o'r perchenogion yn eu cael gyda'u tai, gan awgrymu atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw i bob un. Bu'r holl gyfranogwyr yn teithio fel grŵp mewn bws mini felly gallent fanteisio ar yr amser gyda TLC a chyda'i gilydd i rannu syniadau a gofyn cwestiynau.

Ymgasglodd y cyfranogwyr am 10am yn Neuadd Gymunedol Myddfai ac, ar ôl y cyflwyniadau a thrafod yr hyn y gobeithiai pob cyfranogwr ei gael o'r diwrnod, bu Cliff Blundell yn rhoi cyflwyniad am bwysigrwydd gofalu am ein treftadaeth adeiledig a sut y gallem oll gyfrannu. Cyflwyniad rhyngweithiol oedd hwn, gan annog y cyfranogwyr i holi a chyfrannu drwy'r cyfan.

Ar ôl y cyflwyniad, teithiodd y grŵp mewn bws mini i'r eiddo cyntaf. Dychwelodd i Neuadd y Pentref am ginio, cyn mynd ar droed o gwmpas y pentref ac yna teithio ymhellach i ffwrdd, eto yn y bws mini, i adolygu'r ddau eiddo olaf. Daeth y gweithgareddau i ben am 5.00pm.



**Cyfranogwyr Clinig Hen Dai ABC gyda Cliff Blundell o TLC**

Dywedodd yr holl gyfranogwyr eu bod wedi dysgu cryn dipyn, gan ddod i'r casgliad y bu'r diwrnod yn un ysbrydoledig ac addysgiadol, a bod y cwrs wedi newid eu barn er gwell am adeiladau traddodiadol. Yn yr adborth, dywedodd y cyfranogwyr y byddent yn defnyddio'r wybodaeth yn y dyfodol ac yn trosglwyddo gwybodaeth i ffrindiau a theulu.

## Digwyddiad 5 – Arddangosfa Ffotograffiaeth: Adfail 17 – 22 Mehefin 2017

Ar ddydd Sadwrn 17 Mehefin 2017, lansiodd ABC yr arddangosfa ffotograffig *Adfail* yng Nghanolfan Tywi, Fferm Dinefwr, Llandeilo. Agorwyd yr arddangosfa gan Tom Lloyd, awdur *Lost Houses of Wales*, a *The Pevsner Guide to The Buildings of Wales: Carmarthenshire and Ceredigion*.

Nod yr arddangosfa oedd tynnu sylw i'r nifer helaeth o adeiladau segur o arwyddocâd hanesyddol ledled y rhanbarth, a'r golled ddiwylliannol a geir pan fyddant yn dirywio, heb eu cydnabod na'u cofnodi. Roedd yr arddangosfa hefyd yn arddangos gwaith a wnaethpwyd yn ystod *Prosiect Treftadaeth Llawr Gwlad* ABC.

Gwahoddwyd i'r lansiad bawb a oedd wedi cyfranogi neu helpu gyda'r Prosiect Treftadaeth Llawr Gwlad mewn unrhyw ffordd. Ar ôl i Tom Lloyd agor y digwyddiad yn swyddogol a dewis y ffotograff mwyaf eithriadol o'r arddangosfa, ynghyd â 3 ffotograff a gafodd glod mawr, bu Nigel Clubb, Aelod o Bwyllgor CDL, a Joanie Speers, Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Adfer Ban a Chwm yn siarad hefyd. Bu Nell Hellier, swyddog prosiect ABC, yn amlygu'r arddangosiadau o gyfres o ddigwyddiadau *Treftadaeth Llawr Gwlad* a gyflenwyd yn ystod y prosiect, ac yn tywys ymwelwyr i'r arddangosfa. Mwynhaodd y gwesteion de hufen prynhawn.



**Gwesteion a siaradwyr yn arddangosfa ffotograffig ABC a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tywi yn Llandeilo**

Cafwyd 108 ymgais ffotograffig gan naw gwahanol ymgeisydd, gyda ffotograffau o 29 o wahanol adeiladau ledled De-orllewin Cymru. Roedd pedwar ymgeisydd yn y categori o dan 16, tri adeilad yng nghategori Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ond roedd y mwyafrif yn y categori agored. Gwnaethpwyd catalog llawn o'r ffotograffau a gyflwynwyd, eu lleoliad a dosbarth ac enw'r ffotograffydd (gweler yr adroddiad llawn).



**Y ffotograff buddugol**

Yr un a ddewiswyd gan Tom Lloyd oedd Rhif 57, Bancyrhodin a dynnwyd gan Steffan Thomas sy'n 15 oed.

Cynhaliwyd arddangosfa o'r *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* a'r pedwar Gweithdy *Treftadaeth Llawr Gwlad* ochr yn ochr â'r ffotograffau. Roedd hon yn cynnwys adroddiad digwyddiad Dathlu Myddfai Hanesyddol, ffotograffau o ddigwyddiad y Clinig Hen Dai, manylion rhaglen mapio a chofnodi adeiladau ABC, a ffotograffau a chofnodion o'r adeiladau a gofnodwyd yn y digwyddiad Cofnodi Adeiladau Cymunedol. Wedi'u harddangos hefyd oedd ffotograffau o'r Gweithdai Ysgol. Roedd 40 o'r tai model a wnaethpwyd gyda'r plant ysgol wedi'u harddangos ym man yr arddangosfa ffotograffiaeth ac roedd y deunyddiau i wneud y tai model ar gael i'r ymwelwyr ag arddangosfa *Adfail* i'w gwneud eu tai eu hunain.

Ceir isod rai o'r sylwadau o'r llyfr ymwelwyr yn yr arddangosfa.

> "Trist gweld cynifer o adeiladau anghyfannedd â hanes cyfoethog – byddai'n dda adfer rhai ohonynt ... Ffotograffau gwych"

> "Diddorol iawn – dyw rhai pobl ddim yn sylweddoli beth sydd ganddyn nhw!"

> "Arddangosfa ardderchog - mae'n drueni mawr fod rhai o'r rhain y tu hwnt i'w hadfer erbyn hyn. Da iawn am gofnodi'r rhain yn rhan o'n treftadaeth werthfawr!"

"Tristwch mawr yma – mae gan bob annedd anghyfannedd ei stori – ond dim storïau!"

"Mae'r safon o ffotograffiaeth yn galonogol o uchel gan ffotograffwyr ifanc. Byddai'n dda dangos rhywbeth am y nodweddion technegol: camera/ffilm, digidol neu ffôn symudol."

"Mae'r hongian yn haeddu sylw a chlod. Mwynheais y cyflwyniad yn fawr iawn."

Roedd y rheini a welodd yr arddangosfa wedi'u cyffroi, ond ni chafwyd cynifer o ymwelwyr ag y gobeithiwyd. Roedd hefyd yn siomedig mai dim ond naw a oedd wedi cyfrannu at yr arddangosfa, er ystyriwyd bod nifer ac ansawdd y ffotograffau a gyflwynwyd yn dda iawn. Roedd pawb a gyfrannodd wedi cymryd rhan yn y prosiect, ac yn enwedig y rheini a ymgeisiodd yn y categori o dan 16 yn llawn brwdfrydedd am gymryd rhan.

Gwnaethpwyd awgrymiadau am leoliadau eraill a all fod â diddordeb mewn cynnal yr arddangosfa, a chafwyd cais am gael sgwrs am yr arddangosfa. Mae'r ddau weithgaredd hyn y tu hwnt i gwmpas y prosiect cyfredol ond maent yn arwydd o'r ysbrydoliaeth sy'n cael ei thanio gan y maes pwnc.



**Swyddogion prosiect ABC yn paratoi'r arddangosfa ffotograffig**

## Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol ABC 2016 - 2017

Mae'r crynodeb byr hwn yn cynnwys rhai o ganlyniadau a chasgliadau *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* ABC, a oedd yn sail i flwyddyn gyntaf *Prosiect Treftadaeth Llawr Gwlad* ABC. Roedd hwn yn astudiaeth 'graddfa dirwedd' o adeiladau traddodiadol a gwerinol anghyfannedd, segur yn ardal Orllewinol (Sir Gaerfyrddin) Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (PCBB). Nod yr astudiaeth oedd darparu'r wybodaeth angenrheidiol i alluogi ABC i adnabod adeilad/au posibl i weithio arnynt gyda'r gymuned leol, ac i arddangos nifer yr adeiladau anghyfannedd a segur yn ardal yr astudiaeth. Am ragor o fanylion trowch at yr adroddiad llawn.

Cynhaliwyd asesiad desg cychwynnol, lle cymharwyd mapiau Arolwg Ordnans (OS) modern a hanesyddol i gynhyrchu map lleoliadol o adeiladau a oedd yn cael eu defnyddio ar ddiwedd y 19$^{eg}$ a dechrau'r 20$^{fed}$ canrifoedd ac sydd bellach yn anghyfannedd, ac yna ymweliadau safle â detholiad o adeiladau a nodwyd yn ystod y cyfnod desg.

Un rhan o *Raglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* ABC oedd prosiect partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (YAD) a ariannwyd gan Cadw i fapio pob adeilad traddodiadol (cyn 1915) *mewn bod* (yn cael ei ddefnyddio) yn ardal yr astudiaeth.

Yn ystod y rhaglen nodwyd 281 o dyddynnod anghyfannedd neu segur gan ABC, a dim ond 54 ohonynt â chofnodion presennol, gan arwain at greu 227 o gofnodion newydd sbon o adeiladau anghyfannedd a segur, a safleoedd adeiladau lle'r oedd pobl yn preswylio ar ddiwedd y 19$^{eg}$ ganrif, yn ardal yr astudiaeth. Dengys y dystiolaeth a gasglwyd lefel y diboblogi gwledig yng Nghymru yn ystod yr 20$^{fed}$ ganrif, ac mae'n arddangos yn amlwg iawn fod cymunedau gwledig yn llawer mwy o faint yn ystod diwedd y 19$^{eg}$ ganrif a dechrau'r 20$^{fed}$ ganrif nag y maent erbyn hyn.

Roedd yr adeiladau anghyfannedd yn nodi tomenni bywyd yn y gorffennol diweddar, ac mae llawer ohonynt yn profi trywydd cryf o barhad sy'n ymestyn yn ôl drwy hanes Cymru. Maent yn adnodd gwerthfawr ar gyfer deall gorffennol diwylliannol Cymru, ond yn aml wedi'u camddeall, yn cyflym ddiflannu a heb eu cynrychioli'n ddigonol. Ond maent yn ymwneud â mwy na hanes.

Gall y rheini sydd heb eu haddasu roi gwybodaeth am driniaeth briodol i'r rheini sy'n goroesi ac yn gartrefi, neu sy'n cael eu defnyddio o hyd. Mae'r cartrefi a gynrychiolir gan y 'lympiau a'r tomenni' a aeth yn angof mewn caeau ac wrth ymyl ffyrdd hefyd yn uniongyrchol berthnasol i'r angen modern iawn am gynaliadwyedd mewn arferion a deunyddiau adeiladu. Ni chafodd yr adeiladau hyn eu dylunio y tu hwnt i anghenion sylfaenol byw o ddydd i ddydd; serch hynny, mae'r deunyddiau cartref, lleol a'u gwnaethpwyd, sy'n anfeidraidd ailddefnyddadwy, ailgylchadwy ac, yn y pen draw, bioddiraddadwy, yn dangos ffyrdd posibl ymlaen ar gyfer cartrefu poblogaeth gynyddol mewn adeiladau sy'n wirioneddol 'gynaliadwy' o ran disgwyliad oes, defnydd ynni ac ymddatodiad diwedd oes. Cyflawnwyd yr uchelgeisiau hyn eisoes yn syml ac yn gain gan un o eiconau diwylliannol presennol Cymru - sef cartrefi gwerinol bychain cefn gwlad Cymru. Ni ddylem anwybyddu'r modelau 'bach ond perffaith eu ffurf' hyn ar gyfer arfer adeiladu cynaliadwy!

Roedd yr astudiaeth hon yn ymdrin ag ardal gymharol fechan ond mae wedi amlygu'r helaethder mawr o safleoedd o'r math hwn nas cofnodwyd yn flaenorol. Mae hyn bron yn sicr yn cynrychioli llawer o rannau eraill o Gymru wledig, ac felly mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaeth hon (a ddisgrifir yr adroddiad llawn) yn uniongyrchol berthnasol i ardaloedd eraill.

Mae rhaglen mapio ABC wedi dechrau casglu rhagor o wybodaeth fanwl am lawer o safleoedd newydd, a chrisialu gwybodaeth leol gysylltiedig, ond mae cymaint i'w wneud o hyd, ac mae angen ei wneud yn fuan iawn. Gallai hyd yn oed parhau'r rhaglen mapio yn yr ardal yr ymdriniwyd â hi eisoes roi cyfleoedd i ychwanegu at y wybodaeth a gasglwyd a'i gwella, a gellid cyflawni hyn drwy gyfranogiad gwirfoddolwyr cymunedol (ymchwil desg, ymweliadau maes a chofnodi adeiladau). Y gobaith yw y bydd yr ymchwil hwn yn sail ac yn ysgogiad i ymchwil a chofnodi pellach.

Bydd rhagor o wybodaeth o'r math hwn yn helpu i ganfod ffyrdd o ofalu am yr agwedd bwysig hon ar amgylchedd hanesyddol Cymru. Y gobaith yw y bydd hybu ymwybyddiaeth am adeiladau gwerinol anghyfannedd yn tanlinellu pwysigrwydd gofalu am y rheini sydd wedi goroesi ac sy'n cael eu defnyddio o hyd, ac yn helpu i warchod treftadaeth werinol Cymru rhag dirywio oherwydd diffyg cydnabyddiaeth a dealltwriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau a nodwyd a'r safleoedd lle safai adeiladau unwaith yn cynrychioli treftadaeth 'mewn perygl'. Mae'r *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* wedi dangos, o'r adeiladau anghyfannedd a oedd yn gartrefi ar ddiwedd y 19$^{eg}$ ganrif a dechrau'r 20$^{fed}$ ganrif, fod llawer wedi'u colli'n gyfan gwbl; prin y mae gan rai ohonynt unrhyw olion uwchlaw'r ddaear. Mae cyflwr olion yr adeiladau sy'n sefyll yn gwaethygu'n gyflym iawn. Nid yw eu harwyddocâd a'u gwerth yn rhan o'r dirwedd hanesyddol ehangach yn cael eu cydnabod yn helaeth o hyd, er gwaethaf eu pwysigrwydd diwylliannol amlwg.

Gobeithia ABC y bydd y *Rhaglen Mapio Tirwedd Hanesyddol* a'r *Prosiect Treftadaeth Llawr Gwlad* ehangach yn gwneud cryn dipyn tuag at unioni'r sefyllfa hon. Dylem fod yn falch iawn o'n treftadaeth adeiledig werinol yng Nghymru, nid yn unig am yr hyn y bu yn y gorffennol, ond hefyd am y cyfleoedd y mae'n eu cynrychioli i'r dyfodol.






## Cydnabyddiaethau

Hoffai ABC ddiolch i'n hariannwyr: Quaker Housing Trust, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Ymddiriedolaeth Bannau Brycheiniog, y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, ac Ymddiriedolaeth y Pererin; heb eu cymorth ariannol ni allai'r prosiect hwn fod wedi digwydd. Diolch hefyd i'r sefydliadau sydd wedi rhoi cymorth 'o fath arall' i'r prosiect gydag adnoddau, amser, cyfleusterau a chyfarpar, yn enwedig YAD, Canolfan Tywi, a Calch Tŷ Mawr. Diolch hefyd i Tom Lloyd (awdur a hanesydd adeiladau) am ei gefnogaeth barhaus.

Diolch i'n bwrdd ymroddedig a brwdfrydig o ymddiriedolwyr, i'n cyfarwyddwyr gweithredol blaenorol, i'n swyddogion prosiect, ac i'n cyfieithwyr. Diolch i staff a chydweithwyr yn YAD, ac i'r bobl lawer o'r cymunedau yn ardal yr astudiaeth sydd wedi rhoi cymorth, cefnogaeth a gwybodaeth. Diolch i'n gwirfoddolwyr gwych sydd wedi rhoi o'u hamser i fod yn rhan o'r prosiect, a helpu gyda chofnodi a datblygu ein dealltwriaeth o'r adeiladau hyn.